


Cod Ymarfer Amaethyddol Da
er lleihau mycotocsinau yng
ngrawn y DU



Mae'r daflen hon yn crynhoi'r
newidiadau y gallwch eu gwneud i'ch
ymarfer agronomegol a storio i
leihau'r risg o fynd dros gyfyngiadau
sydd mewn deddfwriaeth
Ewropeaidd gyfredol ar gyfer
mycotocsinau mewn grawn. Dylai'r
wybodaeth a roddir yn y daflen
ffurfio rhan o'ch cynllun gwarantu
cnydau ac mae'n grynodeb o ddau
God Ymarfer cyflawn a gyhoeddir
gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

- **Sylweddau gwenwynig yw mycotocsinau a gynhyrchir gan ffyngau; mae'r cemegau hyn yn beryglus i iechyd pobl ac anifeiliaid**
- **Mae deddfwriaeth Ewropeaidd gyfredol yn gosod cyfyngiadau i'r mycotocsinau mwyaf cyffredin sy'n destun pryder mewn grawn a chynhyrchion grawn (hy tocsinau ffwsariwm sy'n digwydd yn y maes ac ochratocsin A sy'n digwydd wrth storio)**

Mae'r daflen hon yn ymrannu'n ddwy adran; mae'r naill yn disgrifio'r camau y gellir eu cymryd i leihau achosion **tocsinau ffwsariwm yn y maes** ac mae'r llall yn manylu ar ymarferion i leihau **ochratocsin A rhag ffurfio mewn grawn sy'n cael ei storio**.




Ymarfer Amaethyddol Da er lleihau Mycotocsinau Ffwsariwm yng Ngrawn y DU

- Gall mycotocsinau ffwsariwm gael eu cynhyrchu ar gnydau grawn yn y maes yn sgil cael eu heintio gan falltod ffwsariwm y dywysen.
- Mae'r risg o ran mynd dros ben gyfyngiadau cyfreithiol ar gyfer mycotocsinau ffwsariwm mewn grawn yn isel. Mae'r risg yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac o ranbarth i ranbarth, gan ddibynnu ar yr hinsawdd. Mae'r risg yn is yng ngogledd Lloegr a'r Alban.
- Ymarfer Amaethyddol Da yw'r prif fecanwaith i leihau mycotocsinau mewn grawn a chynhyrchion seiliedig ar rawn.

Asesu Risg ar gyfer Halogi Mycotocsin Ffwsariwm

Dylech gynnal asesiadau risg drwy gydol y flwyddyn i benderfynu'r potensial am halogi mycotocsin ffwsariwm yn eich cnydau. Dangosir y ffactorau pwysicaf ar y dudalen ganlynol; mae effaith gronnus i'r ffactorau hyn.



Cod Ymarfer Amaethyddol Da er Lleihau mycotocsinau yng ngrawn y DU

Ffactorau Risg Allweddol ar gyfer Halogi Mycotocsin Ffwsariwm

	Uchel	Canolig	Isef
Rhanbarth	De a Dwyrain Lloegr	Gorllewin Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon	Gogledd Lloegr a'r Alban
Cnwd Blaenorol	Indrawn	Gwenith	Cnwd Arall
Rheoli Gweddillion Cnydau	Dim symud na chladdu Teilchion y Cnwd	Bras-drin	Aredig
Dewis Amrywogaeth		Gwrthsafiad gwan yn erbyn Malltod y Dywysen	Gwrthsafiad Cryf yn erbyn Malltod y Dywysen
Amodau'r Tywydd	Glaw trwm wrth flodeuo	Ychydig law wrth flodeuo	Dim glaw wrth flodeuo
Defnyddio Ffwngleiddiaid		Dim defnyddio Ffwngleiddiad Malltod y Dywysen	Defnyddio Ffwngleiddiad Malltod y Dywysen
Gorweddiant		Cnwd wedi gorwedd	Cnwd Heb Orwedd
Cynhaefu		Amodau Cynhaefu Gwlyb	Amodau Cynhaefu Sych



Camau y Gallwch Eu Cymryd

Yn dilyn asesu risg, dylech ystyried yr Ymarferion Amaethyddol Da canlynol i leihau halogi mycotocsin ffwsariwm yn eich cnydau.

Camau Sylweddol eu Heffaith

Cylchdro ar Cnwd Blaenorol

Dylech osgoi indrawn fel y cnwd blaenorol; dylech osgoi cylchdroi'n ddwys gnydau sy'n cynnal ffwng Ffwsariwm (indrawn, gwenith, barlys a cheirch)

Rheoli Gweddillion Cnydau

Lleihewch weddillion y cnwd blaenorol ar wyneb y pridd trwy aredig

Camau Canolig eu Heffaith

Dewis Amrywogaeth

Dewiswch amrywogaethau sy'n gwrthsefyll malltod y dywysen yn dda

Defnyddio Adnoddau Genetig Planhigion (PGR)

Dylech eu defnyddio pan fydd angen, gyda'r dogn priodol gan amseru er mwyn osgoi gorweddiant

Defnyddio Ffwngleiddiad

Ystyriwch chwistrellu ffwngleiddiad ar y tywysennau i reoli malltod y dywysen

Cynaeafu a Storio

Cynaeafwch yn amserol a sychwch y grawn hyd at gynnwys lleithedd o dan 18%

Camau Bach eu Heffaith

Rheoli Chwyn

Gellir dod o hyd i ffyngau ffwsariwm ar amrywiaeth o wahanol chwyn, felly, dylid rheoli poblogaethau chwyn

Rheoli Pryfed

Rheolwch boblogaethau plâu pryfed gan fod difrod a achosir gan bryfed yn ffordd bosibl i gael heintiad Ffwsariwm

Rheoli Gwrtaith

Cyfatebwch fewnbynnau gwrtaith i ofynion y cnydau, yn enwedig er mwyn sicrhau na fydd gormod o fewnbynnau nitrogen yn arwain at orweddiant




Ymarfer Storio Da er Lleihau Ochratocsin A yng ngrawn y DU

- Gall ochratocsin A gael ei gynhyrchu ar rawn wrth ei storio
- Mae tymheredd y grawn a'r cynnwys lleithedd yn ffactorau storio allweddol sy'n effeithio ar gynhyrchu ochratocsin A
- Ymarfer Storio Da yw'r prif fecanwaith er mwyn lleihau ochratocsin A mewn grawn a chynhyrchion grawn

Camau y gallwch eu cymryd

Ceir sawl cam y gallwch eu cymryd i leihau halogi cnydau sydd wedi'u storio gan ochratocsin A



Camau Sylweddol eu Heffaith

Cynllun ac Amodau Storio Da

Sicrhewch fod y storfeydd wedi'u cynllunio'n dda a bod awyru a llif awyr da yn cael eu cynnal

Hylendid Cynhaeafu a Storio Da

Glanhewch beiriannau cynhaeafu a storio i atal unrhyw sborau ffwngaidd rhag cael eu cario drosodd rhwng tymhorau

Cynhaeaf Amserol

Gwasanaethwch a chynnal a chadw peiriannau i osgoi oedi wrth gynhaeafu

Llawnbwn Sychu Digonol

Sicrhewch fod digon o lawnbwn sychu ar gael i'r holl rawn sy'n cael ei gynhaeafu er mwyn osgoi ôl-groniad grawn sy'n llaith iawn

Sychwch y Grawn yn Gyflym

Sychwch y grawn yn gyflym ag aer boeth neu swmp-sychu nes bod y cynnwys lleithedd o dan 18% i leihau'r risg y bydd ochratocsin A yn digwydd wrth gael ei storio.

Oerwch y Grawn yn Gyflym

Oerwch y grawn yn gyflym hyd at o dan 15°C

Camau Canolig eu Heffaith

Sychu Parhaus

Sychwch o dan 15% cynnwys lleithedd ar gyfer storio hirdymor gan greu amodau nad ydynt yn arwain at actifedd ffwngaidd

Oeri Parhaus

Oerwch y grawn yn ystod misoedd y gaeaf hyd at o dan 5°C

Camau Bach eu Heffaith

Monitro Tymheredd a Mesur Cynnwys

Monitrwch y tymheredd a'r cynnwys lleithedd yn barhaus a gweithredwch yn syth os dewch i o hyd i unrhyw broblemau

Monitro Gweithgaredd Pryfed a Gwiddon

Defnyddiwch faglau a rhidyllu i fonitro pryfed a gwiddon a'u rheoli lle bo angen



Lle i gael hyd i wybodaeth bellach

Mae'r daflen hon yn amlygu pwysigrwydd y ffactorau i'w hystyried i leihau tocsinau ffwsariwm rhag digwydd yn y maes ac ochratocsin A wrth storio.

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y daflen hon wedi'i chymryd o ddau God Ymarfer a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cynsail y rhain oedd prosiectau ymchwil gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a wnaed gan Goleg Prifysgol Harper Adams.

Argymhellir eich bod yn darllen y dogfennau llawn, ar y cyd â'r daflen. Gellir cael hyd i'r Codau Ymarfer ar y Rhynggrwyd ar:

www.food.gov.uk/foodindustry/farmingfood/fusariumadvice

Fel y corff rheoleiddio ar gyfer diogelwch bwyd yn y DU, mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd gyfrifoldeb am weithredu a chymhwyso deddfwriaeth yr UE, ac fel y cyfryw, bwriad y Codau Ymarfer yw darparu gwybodaeth i helpu tyfwyr i leihau halogi mycotocsinau mewn grawn. Ategir y Codau Ymarfer hyn gan Ganllawiau HGCA i Samplo Grawn, Samplo a Dadansoddi a Storio Grawn.

Os bydd angen copi o'r naill neu'r llall o'r Codau Ymarfer mycotocsin neu os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill ynglŷn â'r mater hwn, cysylltwch ag:

Enquiries
Food Standards Agency
Aviation House
125 Kingsway
London
WC2B 6NH

Ffôn: 020 7276 8829
e-bost: helpline@foodstandards.gsi.gov.uk